EISTEDDFOD GADEIRIOL Y TALWRN 28/10/2023

Barddoniaeth

1) Y Gadair: Cynnwrf - Cerdd gaeth neu rydd, dim mwy na 100 llinell.
   Gwobrau: Cadair fechan a £40; £30; £20.

2) Englyn – yn cynnwys y gair Gweld neu Edrych *Gwobrau: £10; £8; £5*

3) Cerdd Ysgafn - Ymddiheuriad. Hyd at 25 llinell. *Gwobrau: £10; £8; £5*

4) Emyn i Blant Oedran Cynradd (Geiriau'n Unig) *Gwobrau: £10; £8; £5*

5) Llinell goll: Cwblhau'r Limrig. *Gwobrau: £5; £3; £2*

O gornal Tŷ'n Lôn at Ryd Ddima',
Bryn Gors at Dŷ'n Llidiart – arafa,
Ar droed neu olwynion
Mae 20 yn ddigon,

_ _

6) Limrig yn cynnwys y llinell:

Mae ffarmwr o gwr Llanfairfechan *Gwobrau: £5; £3; £2*

Rhyddiaith

1) Stori Fer neu Ysgrif: Hyn sydd rhyngom. *Gwobrau: Plât a £40; £30; £20*

2) Ffurfio brawddeg o'r gair: Digwyddiad *Gwobrau: £5; £3;£2.*

3) TLWS YR IFANC i rai dan 21 oed. Darn o lenyddiaeth creadigol hyd at 2,000 o eiriau.
   Gwobrau: Tlws yr Ifanc a £30; £20; £10

4) Blwyddyn 10 ac 11: Darn o ryddiaith Creadigol *Gwobrau: £8; £6; £4*

5) Blwyddyn 7, 8 a 9: Darn o ryddiaith creadigol. *Gwobrau: £7; £5; £3*

6) Cystadleuaeth i oedolion sy'n dysgu Cymraeg: Llythyr at ffrind.
   (Y dysgwyr i nodi eu lefel wrth ymgeisio) *Gwobrau: £10; £8; £5*

Cynnyrch Llenyddol i fod yn llaw'r ysgrifennydd **erbyn Hydref 12fed** gyda enw, cyfeiriad a rhif ffôn yr ymgeisydd mewn amlen dan sêl. Derbynnir gwaith hefyd drwy yrru e-bost at **taleilian@hotmail.co.uk**

YSGRIFENNYDD: Helen Evans Taleilian, Talwrn, Llangefni, Ynys Môn LL77 7TF

Dychwelir y cyfansoddiadau os derbynnir cais ysgrifenedig gydag amlen stampiedig o fewn pythefnos ar ôl yr Eisteddfod.